

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Mai 15, 2018 am 7:30 o'r gloch.**

Preseanol Cyngorwyr: Peredur Jenkins, Mordaf Roberts, Meurig Ashton, Hugh A. Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Llion Rh. Williams, Emlyn Roberts, Gerallt Griffith.

3. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Mordaf Roberts.

Is Gadeirydd: Peredur Jenkins.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones

Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith

Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts

Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton

Un Llais Cymru (2): Mordaf Roberts, Peredur Jenkins.

4. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 20, 2018

Wedi cywiro Presennol i gynnwys Mordaf Roberts a chywiro Eitem 6.d. 'Ceunant' i ddarllen 'Gernant', cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 20, 2018

Eitem 5. Eitem 6.g. Llythyr (27/2/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Amgáu mae Adroddiad Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan <http://gov.wales/irpwsb/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy> Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 15, 2018

O'r adroddiad, nid yw Cyngorwyr Cymuned a Thref yn wirfoddolwyr oherwydd maent wedi derbyn cyfrifoldebau ac o hyn maent yn cael taliad o£ £150 y flwyddyn tuag at gostau defnyddio ffôn, technoleg gwybodaeth ac yn y blaen. Yn yr adroddiad mae cymal: Gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i ddewis rhoi heibio rhan neu'r cyfan o'r hawl i unrhyw un o'r taliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y Cyngor yn ysgrifenedig.

Penderfynwyd i'r aelodau sydd ddim angen y swm £150 i roi gwybod i'r Clerc yn ysgrifenedig.

7 Gohebiaeth

- a. Llythyr (21/3/2018) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd..
- b. Llythyr (4/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi manylion pam bod Archwiliad Allanol yn bwysig. Mae'r gyfraith ei angen. Mae'n cael ei wneud pob blwyddyn gan BDO ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru i sicrhau cafodd y cyfrifon eu paratoi'n iawn, a bod y cyngor wedi sicrhau darbodaeth, effeithionrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'r adnoddau cyhoeddus. Mae Archwiliad Allanol yn fwy pwysig y dyddiau hyn oherwydd newidiadau yn awdurdodau unedol yn ceisio gwneud arbedion yn eu cyllidebau trwy drosglwyddo gwasanaethau neu asedau i gynghorau cymudol a thref.
- c. Llythyr (11/4/2018) oddi wrth oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd, ynglŷn ag Ail Rybudd Cau Ffordd Lôn Lefel, Ganllwyd. O Ebrill 6 am 18 mis ni chaiff unrhyw gerbyd fynd ar ffordd Lôn Lefel i gwblhau gwaith. Bydd ffordd osgoi ar gael. Mae hyn oherwydd bod y wal gynnal y ffordd wedi ei thanseilio gan yr afon ac angen ei thrwsio.
- ch. Llythyr (12/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda ffurflen angen dau gynrychiolydd i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru.

Penderfynwyd i Mordaf Roberts, Peredur Jenkins fod y cynrychiolwyr.

- d. Llythyr (16/4/2014) oddi wrth Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn rhoi gwybod am lansiad Gwobr Pentrefi Meirionnydd 2018. Mae cyfle i bentrefi Meirionnydd i gystadlu am wobwr i ddangos mae ganddynt le gwych i fyw. Mae gwahoddiad i ddau aelod o'r Cyngor fod yn bresenol at lansio'r wobwr ar ddydd Llun, Mai 10, 2018 am 6.00yh yn Y Ganolfan, Porthmadog. Amgáu mae ffurflen i'w chwblhau.
- dd. Llythyr (17/4/2018) oddi wrth Canolfan Theropi Plant Bobath Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 15, 2018

e. Llythyr (19/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae angen y Cyngor cael Data Protection Officer i gyd ymffurfio â General Data Protection Regulation (GDPR). Mae'n berthnasol os mae gan y Cyngor wybodaeth bersonnol. Mae'r rheol yn dod i rym ar Fai 25, 2018.

Llythyr (26/4/2018) oddi wrth Un Llais yn rhoi gwybod mae'r Llywodraeth wedi rhoi cynnig nid oes angen i gynghorau cymuned a thref penodi Data Protection Officer.

f. Llythyr (1/5/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth am Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru yn Hafod a Hendre, Maes y Sioe Amaethyddol ar Gorffennaf 4, 2018 am 9.30yb.

ff. Llythyr (1/5/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybood:

Bydd ffordd Coed Mwsoglog, Bryncoedifor yn cael ei arwisgo.

g. Llythyr (8/5/2018) oddi wrth Neuadd Bentref Llanfachreth yn diolch am ein rhodd ariannol.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (21/3/2018) gyda gwahoddiad gan Cymorth Cynllunio Cymru i weithdy i helpu cyngorau cymuned a thref i ddeall sut y delir â cheisiadau cynllunio a sut allent ddylanwadu ar benderfyniadau. Bydd y digwyddiad yn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar ddydd Iau, Ebrill 19, 2018 am 4.00yp i 7.15yp.

b. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/54/LB70A. Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau i'r cynllun mewnol cynnwys cegin, ystafell fyw yn cynnwys gwresogydd llosgi coed ac ail leoli'r grisiau a chau agoriad drws dan y prif borth ar y llawr gwaelod, creu ystafell ymolchi ac ystafell wely i'r llawr cyntaf. Newidiadau i'r ffenestri i gynnwys gwydr dwbl. Ail adeiladu sied gorffeniad derw byrddiog a tho dur rhychiog wrth wal dalcen Drychiad Gorllewinol a chreu porth newydd to llechi ffrâm dderw oddi ar waliau cerrig bychain tros y fynedfa drws derw newydd i'r Drychiad Dwyreiniol. Coed y Moch Lodge, Dolgellau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/4/2018).

2. NP5/54/LB70B. Cais cynllunio i ychwanegu porth newydd fram dderw to llechi tros y fynedfa ochr - Drychiad Dwyreiniol a newid y defnydd i lety gwyliau. Coed y Moch Lodge, Dolgellau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/4/2018).

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 15, 2018

3. NP5/54/LU16R. Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Presennol) i ddefnyddio'r tir fel safle carafannau ar gyfer 35 carafan deithiol a maes pebyll ar gyfer 14 o babelli, am y cyfnod rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref pob blwyddyn. Llwyn-yr-Helm, Brithdir. LL40 2SA

Mae'r Awdurdod eisiau gwybodaeth bersonol (nid y Cyngor) ar ddefnydd y tir yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Penderfynwyd rhoi gwybod nid oes sylw i'r mater.

4. NP5/54/458. Cynllun trydan-dŵr 29kw arfaethedig yn cynnwys strwythur argae, pibell dan y ddaear, adeilad twrbin, all-lif a cysylltiad grid tanddaearol. Gwern Graig, Tabor, Dolgellau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

9. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/3/2018) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2018).

ii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2018 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Bil (20/3/2018) Treth Annomestig Cenedlaethol ar gyfer 2018/19 tuag at Public Convenience Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim tal am y cyfnod.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mawrth 2018: £1,136.89.

ch. Balans yn y banc ar 29 Mawrth, 2018: £4,415.24.

d. Dogfennau (10/4/2018) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2018 i 31/5/2019. Y tâl i'w adnewyddu yw £531.10. (Tal flwyddyn ddiwethaf oedd £524.58).

Penderfynwyd talu'r ffi.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 15, 2018

dd. Llythyr (6/4/2018) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen a'r dogfennau cyn Mehefin 19, 2018.

Fel roedd ei angen, dangoswyd 'Hysbysiad pennu dyddiad ar gyfer ymarfer hawliau etholwr Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (Atodiad 7 / Appendix 7)' a 'Crynodeb o hawliau etholwyr (Atodiad 8 / Appendix 8)' ar y pedwar hysbysfwrdd. Cymrwyd ffotograff yn dangos yr hysbysiad.

Manylion roedd eu hangen:

Copiâu yn dangos gwariant ac incwm
Arddangos rhybudd yn rhoi gwybodaeth i'r etholwyr o'u hawliau yn yr archwiliad.
Copïau o'r cofnodion yn dangos ein bod wedi cymryd sylw o'u hargymhellion.
Faint o arian sydd yn y banc ar ddiwedd y flwyddyn.
Copi o'r gofrestr etholwyr.
Rhestr o arian rhoddwyd fel rhodd.
Cyflog y Clerc. Roeddynt eisïau copi contract y Clerc.,

Arwyddodd y Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol ac archwilwyd y ffurflen gan yr aelodau.

e. Llythyr (25/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod Cyngor Lleol ar gyfer 2018/19 o 1/4/2018. Mae'r cyflog yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol ar Raddfeydd i Glercod.

Cyflog presennol y Clerc yw £9.120 yr awr ar bwynt SCP 17, h.y. £9.120x 12 x 12 = £1,313.28 y flwyddyn.

Cyflog newydd am 2018/19 fydd £9.705 yr awr ar bwynt SCP 17, h.y. £9.705x 12 x 12 = £1,397.52 y flwyddyn.

Penderfynwyd codi cyflog y Clerc i bwynt SCP19, sef £10.107. Bydd y cyflog yn £10.107 x 12 x 12 = £1,455.40 y flwyddyn.

f. Bil (26/4/2018) am £276.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd am lenwi biniau halen. (5@£46 = £230.00 + £46.00 (TAW).

Penderfynwyd talu'r bil.

Penderfynwyd hefyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd bydd angen iddynt roi gwybod i ni at y gaeaf nesaf pa finiau sy'n cael eu llenwi a'r dyddiad cafwyd eu llenwi.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 15, 2018

ff. Anfonwyd (7/5/2018) copi o'r adroddiad 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Brthdir a Llanfachreth 2017-2018' i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ebrill, 2018: £1,136.96.

h. Balans yn y banc ar 29 Ebrill, 2018: £6,586.92.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Mae BT Openreach wedi rhoi superfast broadband yn Rhydymain.

11. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd i symud y bin halen sydd yn Groesffordd i Eisingrug, Rhydymain.

Llofnod:

Dyddiad:
